# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Diogelwch Adeiladau – Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.** |
| **Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Owen Struthers** |
| **Adran:** | **Cynllunio** |
| **Pennaeth yr Is-adran/USC (enw):** | **Neil Hemington** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog â chyfrifoldeb:** | **Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Awst 2021** |

## CYNNWYS

ADRAN 1. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........ 3

ADRAN 2. Cofnod o'r asesiadau llawn o'r effaith sydd eu hangen ........ 7

A. Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ........ 8

# ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Ers tân Tŵr Grenfell mae Adolygiad Annibynnol y Fonesig Judith Hackitt o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân wedi nodi methiannau difrifol o fewn y diwydiant adeiladu a'r system reoleiddio, ac wedi cynnig atebion i fynd i'r afael â nhw. Nododd Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Adeiladau, yn eu hadroddiad 'Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru', baramedrau ymateb Cymru i'r materion a godwyd gan adroddiad Hackitt, a chafodd amcanion polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer yr ymateb gan Gymru eu hamlinellu ymhellach mewn datganiad cyhoeddus o'r sefyllfa.

Mae'r gwaith o roi argymhellion Adolygiad Hackitt ar waith wedi cael ei wneud drwy'r papur gwyn, Adeiladau mwy diogel yng Nghymru. Mae'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau mae Llywodraeth Cymru wedi'i chynnig yn y papur gwyn, Adeiladau mwy diogel yng Nghymru, yn amlinellu cynigion i drawsnewid yn sylweddol y system bresennol. Bydd y newidiadau'n gweld gwelliannau i bob cyfnod yn ystod cylch oes adeiladau amlfeddiannaeth, o'r cam dylunio i'r cam adeiladu, hyd y cyfnod pan fydd pobl yn byw ynddynt, i sicrhau bod y risg o dan yn cael ei rheoli yn yr adeiladau hyn ac i sicrhau eu bod y ddiogel ar gyfer preswylwyr.

I roi ar waith yr argymhellion a gafodd eu hamlinellu gan y Fonesig Judith yn Lloegr mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno Bil Diogelwch Adeiladau (y Bil). Yr amcanion yw diwygio'r system diogelwch adeiladau a gwella diogelwch a pherfformiad pob adeilad, ac i sefydlu gyfundrefn fwy llym i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer y ffordd mae risgiau tân a risgiau strwythurol yn cael eu rheoli mewn adeiladau newydd ac mewn adeiladau presennol sydd yn y cwmpas. Mae'r cynigion yn debyg i'r rhai sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru; fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer goruchwylio cynhyrchion ledled y DU drwy fframwaith cryfach, ac Ombwdsman ar gyfer Cartrefi Newydd a fydd yn goruchwylio datblygwyr cartrefi newydd yng Nghymru a Lloegr, gan ddarparu sianel ar gyfer unioni problemau cwsmeriaid, ac mae'r broses ar gyfer cyflwyno materion mewn perthynas â thai cymdeithasol i'r ombwdsman wedi cael ei symleiddio.

Er y bydd angen ceisio rhagor o fanylion gan ymatebwyr mewn perthynas a rhai o'r cynigion a amlinellir yn y papur gwyn Adeiladau mwy diogel yng Nghymru, yn benodol y rhai sy'n gysylltiedig â'r cam meddiannu yng nghylch oes adeilad, a bydd angen i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei phasio yn y Senedd ar gyfer rhai ohonynt, mae cyhoeddi'r Bil wedi rhoi cyfle i weithredu ynghynt i ymateb i'r angen i foderneiddio'r system rheoli adeiladu a'r ffordd mae'r diwydiant adeiladu'n cyflawni ei gyfrifoldebau. Gall y cynigion hyn gael eu cyflwyno drwy Bil y DU a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd. Mae'r Asesiad Cychwynnol hwn o'r Effaith yn asesu effeithiau'r cynigion yn y Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Yr hirdymor**

Mae'r cynigion yn cydbwyso'r anghenion tymor byr a'r anghenion hirdymor. Er enghraifft, drwy osod fframwaith rheoleiddio newydd nid yn unig bydd yr effaith ar adnoddau awdurdodau lleol yn y tymor byr yn cael ei hystyried, ond hefyd ystyrir yr effaith y bydd y

system gymeradwyo yn ei chael ar adnoddau yn y tymor hwy, y rhai sy'n gyfrifol am yr adeiladau hynny a meddianwyr yr adeilad dros oes yr adeilad.

Mae'n bosibl y bydd nifer yr adeiladau sy'n dod o dan y gyfundrefn honno, neu'r adnoddau sydd gan reoleiddwyr i reoli niferoedd yr adeiladau hynny yn cael effaith yn yr hirdymor. Cynigir y dylai'r system fod â rhagor o oruchwyliaeth dros y rheini sy'n asesu gwaith adeiladu, a bydd yr oruchwyliaeth uwch hon yn ganiatáu cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod anghenion hirdymor yn cael eu hystyried.

**Atal**

Bydd gwella'r system ar gyfer rheoliadau adeiladu'n sicrhau bod pob parti'n ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau ac yn gallu eu cyflawni mewn modd effeithiol. Bydd hyn yn cynyddu cymhellion i wneud adeiladau'n fwy diogel, wrth hefyd rwystro'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny mewn modd effeithiol. Bydd darparu cyfundrefn reoleiddio newydd yn sicrhau bod diogelwch adeiladau'n cael ei ystyried yn ystod y cam dylunio cychwynnol, y cam adeiladu ar adeg pan fydd pobl yn byw ynddynt. Bydd y fframwaith newydd ar gyfer rheoliadau adeiladu'n creu ffordd o weithio'n agosach rhwng awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân ac achub a'r rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu adeiladau risg uchel.

Bwriedir i hyn fynd i'r afael â symptomau arferion dylunio ac adeiladu gwael ym maes adeiladu. Dylai rhagor o gyfrifoldeb a phwerau gorfodi sicrhau bod adeiladau'n cael eu hadeiladu yn unol â'r dyluniad, ac nad oes angen gwaith unioni yn y dyfodol. Mae'r cylch negyddol o gystadleuaeth rhwng dewis y rheoleiddiwr sy'n goruchwylio'r gwaith adeiladu a'r potensial ar gyfer torri costau yn cael ei dileu drwy'r system hon.

**Integreiddio**

Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd â *Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol* gan ei fod yn effeithio ar flaenoriaeth drawsbynciol y sector tai, a bydd y cynigion hyn yn sicrhau bod tai newydd yn ddiogel ac nad oes angen gwaith unioni yn y dyfodol. Felly rydym yn buddsoddi yn y dyfodol. Bydd y gwaith yn cyd-fynd â rhai amcanion llesiant Awdurdodau Lleol mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, atgyfnerthu goruchwyliaeth reoleiddiol a sicrhau bod preswylwyr yn teimlo bod cysylltiadau cadarn ag amcan Caerdydd o ddarparu Cymunedau Diogel, Hyderus ac wedi'u Grymuso.

Mae'n debygol y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol fach ar amcanion Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, mae'r sector tai yn ysgogydd allweddol ar gyfer economi Cymru, ac yn cynnal miloedd o swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau. Hefyd mae cysylltiad uniongyrchol rhwng tai o ansawdd uchel ac addysg well a chanlyniadau iechyd gwell. Mae'n bosibl y bydd y cynigion yn cael effaith ar hyfywedd cynlluniau ac yn lleihau nifer y tai sy'n cael eu darparu. Fodd bynnag, mae adeiladau mwy diogel a diogelu bywydau yn bwysicach na'r ystyriaethau masnachol hyn.

**Cydweithio a Chyfranogiad**

Cafodd Panel Gweinidogol o Arbenigwyr (a oedd yn cynnwys gwahanol randdeiliaid) ei sefydlu i ddarparu arweiniad strategol, a bydd y gwaith hwn yn gweithredu nifer o gynigion. Mae Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu yn rhoi cyngor ar wneud a diwygio rheoliadau adeiladu, ac maent wedi cyfrannu at yr ymateb ehangach. Byddant yn parhau i ystyried yr holl is-ddeddfwriaeth sy'n dilyn y Bil.

Mae Adolygiad Hackitt yn nodi'r angen am ragor o gydweithio rhwng gwahanol gyrff ac unigolion wrth i adeilad gael ei ddylunio, ei ddatblygu ac wedyn ei feddiannu. Er mwyn sicrhau bod yr 'edau aur o wybodaeth' hon yn cael ei gweu drwy oes yr adeilad yn y system newydd, bydd angen i'r gwahanol bartïon gydweithio mewn modd effeithiol.

**Effaith, Costau ac Arbedion**

Mae asesiad cychwynnol annibynnol o'r effeithiau ar yr economi wedi cael ei gynnal, sy'n rhoi disgrifiad manylach o'r costau a'r manteision. Mae crynodeb isod.

**Manteision**

*Adeiladau Categori 1 (adeiladau preswyl dros 18m)*

Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd cynigion y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau yn rhoi manteision blynyddol gwerth rhwng £1.4 miliwn a £3.3 miliwn[1] (amcangyfrif canolog o £2.3 miliwn y flwyddyn).

Mae atal tân rhag lledaenu yn cyfrif am fanteision blynyddol gwerth rhwng £0.2 miliwn a £1.0 miliwn (amcangyfrif canolog o £0.5 miliwn y flwyddyn);

Mae osgoi costau am ddatrys problemau systemig yn cyfrif am fanteision blynyddol gwerth rhwng £0.4 miliwn a £0.7 miliwn (amcangyfrif canolog o £0.5 miliwn y flwyddyn.

Mae osgoi costau eraill yn cyfrif am fanteision blynyddol rhwng £0.4 miliwn a £0.7 miliwn (amcangyfrif canolog o £0.6 miliwn y flwyddyn).

*Manteision ehangach*

Mae'r asesiad o effeithiau'r Bil yn nodi, ar lefel y DU, werth ariannol nifer o fanteision ehangach. Bydd canran o'r rhain yn berthnasol i Gymru:

- Manteision arloesi i ddiwydiant adeiladu'r DU sy'n deillio o'r Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau;
- Rhagor o allforion ar draws diwydiant adeiladu'r DU.

Gan gymryd bod manteision ar gyfer cwmnïoedd yng Nghymru yn cyfateb i faint cymharol y sector adeiladu yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai gwerth y manteision hyn i Gymru fod rhwng £0.5 miliwn a £1.0 miliwn.

*Manteision na nodwyd eu gwerth ariannol*

Nid yw gwerth ariannol rhai manteision wedi cael eu nodi gan nad yw'r sail dystiolaeth yn ddigon cadarn, ac mewn achosion eraill, nid ystyrid y gellid nodi manteision mewn modd cymesur. Trafodir manteision nad yw eu gwerth ariannol wedi cael eu nodi isod.

Mae'r amcangyfrifon o'r manteision a amlinellir isod wedi cael eu cyfrifo dros gyfnod arfarnu o 70 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys y manteision a welwyd yn ystod y cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd (yn cyfateb i'r hyn a ddefnyddiwyd i amcangyfrif costau) a'r manteision a all

[1] Manteision blynyddol cyfwerth dros gyfnod polisi o ddeng mlynedd.

barhau am oes yr adeilad, cyfnod tybiannol o 60 mlynedd. Dyma'r ffordd orau o nodi'r holl fanteision ac mae'n adlewyrchu canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM [2] ar 'barhad' manteision. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd manteision sy'n gysylltiedig â gwelliannau i ansawdd adeiladwaith tai newydd yn parhau am oes yr adeilad.

## Costau

*Adeiladau Categori 1*

Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif mai cost blynyddol bodloni amcanion y Gyfundrefn Diogelwch Adeiladau newydd fydd rhwng £1.1 miliwn a £2.0 miliwn (amcangyfrif canolog o £1.6 miliwn).

Amcangyfrif mai'r cost flynyddol gyfartalog i'r **diwydiant** fydd rhwng £0.7 miliwn a £2.0 miliwn (amcangyfrif canolog o £1.0 miliwn);

Amcangyfrif mai'r cost flynyddol gyfartalog i'r **rheoleiddiwr** fydd rhwng £0.4 miliwn a £0.7 miliwn (amcangyfrif canolog o £0.6 miliwn.

*Costau ehangach i ddeiliaid dyletswyddau ar gyfer pob adeilad*

Bydd gofynion ychwanegol i ddeiliaid dyletswydd ar gyfer unrhyw waith adeiladu sy'n sbarduno rheoliadau adeiladu. Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif:

Costau trosglwyddo rhwng £0.4 miliwn a £0.7 miliwn[3] (amcangyfrif canolog o £0.5 miliwn);

Costau blynyddol parhaus[4] rhwng £0.5 miliwn a £0.8 miliwn (amcangyfrif canolog o £0.6 miliwn).

Crynodeb

Mae costau gweithredu'r newid yn uwch na'r manteision ariannol a nodwyd. Fodd bynnag, ystyrir bod y manteision anariannol, megis rhoi sicrwydd i breswylwyr fod eu cartrefi yn ddiogel, hyder uwch ymhlith cwmnïau yswiriant a chwmnïau morgeisi ac amgylchedd gweithredu cliriach ar gyfer y diwydiant adeiladu o ganlyniad i'r cynigion yn cynrychioli gwerth am arian.

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

[3] Y Gwerth Presennol dros gyfnod arfarnu o ddeng mlynedd

[4] Costau Blynyddol Cyfwerth

# ADRAN 2. COFNOD O'R ASESIADAU LLAWN O'R EFFAITH SYDD EU HANGEN

| **Oes angen Asesiad o'r Effaith** | **Oes/Nac oes** | **Os oes, dylech chi wneud y canlynol** |
|---|---|---|
| Cydraddoldeb | Oes* | Cwblhau'r **Error! Reference source not found.**isod |
| Preifatrwydd | Oes* | Cwblhau'r **Error! Reference source not found.** isod |
| Y Cymraeg | Oes* | Cwblhau'r ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEGisod |
| Y Economi / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes* | Cyfeirio ar y canllawiau ar yr Asesiad Effaith Integredig |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Cwblhau'r Error! Reference source not found. isod |

Dylech gynnal yr asesiadau o'r effaith a nodwyd (gan weithio gyda chynghorwyr arbenigol allanol ac arbenigwyr eraill yn ôl yr angen) cyn symud i Adran 7, Casgliad.


# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o 1 miliwn wedi'i gynnwys yn rhaglen *Symud Cymru Ymlaen* ar gyfer llywodraethu, a *Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol*. Mae Iaith Gymraeg sy'n ffynnu hefyd wedi'i chynnwys ym mhob un o'r saith nod llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae hefyd gennym ddyletswydd statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai pob polisi Llywodraeth Cymru ystyried yr effaith mae ein polisïau'n ei chael ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth *Cymraeg 2050*:




Mae'r penawdau o dan bob thema'n amlinellu'r amrediad o weithgareddau a all gael effaith ar yr iaith.
Fel arfer, os yw'n bosibl y bydd eich polisi'n cael effaith ar bobl, bydd yn effeithio i ryw raddau ar siaradwyr Cymraeg, ac felly ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yw: 04/03/2021

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg,* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017–2021?

Nac ydy. Mae'r cynigion yn diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. Nid yw'r cynigion yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Byddant yn ategu Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan y bydd y cynigion yn cael effaith ar gyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a fydd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, a byddwn yn disgwyl iddynt hyrwyddo'r Gymraeg a'r defnydd ohoni drwy eu dyletswyddau. Bydd angen hefyd i unrhyw hyfforddiant eilaidd i ategu'r cynigion ystyried y safonau.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Pa effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar siaradwyr Cymraeg o bob oedran (effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Mae'r cynigion yn diwygio diogelwch adeiladau yng Nghymru. Ni ddisgwylir y bydd cysylltiad uniongyrchol â'r Gymraeg. Nid yw'r cynigion yn:
- effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith
- effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg nac ar ddysgwyr o unrhyw oedran, gan gynnwys oedolion

Mae'r cynigon yn effeithio ar y System Rheoliadau Adeiladu, sy'n wasanaeth a ddarperir ar gyfer y cyhoedd. Ni fydd y ffordd mae'r system yn gweithio ar gyfer y cyhoedd yn newid. Felly ni fydd y cynnig yn effeithio ar:
- Y gwasanaethau[5] sydd ar gael yn Gymraeg
- Mynediad at wasanaethau Cymraeg nac ar sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yr un mor hawdd eu defnyddio yn Gymraeg a Saesneg.

Byddai data ar nifer y gymeradwyaethau rheoli adeiladau a gyflwynwyd yn Gymraeg yn cynorthwyo ymhellach gyda'r dadansoddiad hwn. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy lwyddiant y system wrth wella rheoliadau adeiladu.

[5] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu amrediad y gwasanaethau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg.